Rhif 2

Tymor y Gwanwyn 2005

PE & School Sport

AG a Chwaraeon Ysgol

AG a Chwaraeon Ysgol

RHONDDA CYNON TAF

Bwrw cwch ymgyrch Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol (AGChY) i'r dŵr yn Ysgol Sir Cymuned y Porth

Ar ôl cais llwyddiannus, Ysgol Sir Cymuned y Porth erbyn hyn yw'r ail ysgol yn Rhondda Cynon Taf i gael Statws Canolfan Datblygu Add Gorff a Chwaraeon Ysgol.

Yn ystod seremoni'r cyhoeddi, mwynhaodd nifer o westeion a phlant o'r fwrdeistref sirol gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon.

Mae'r Prifathro, Steve Bowden, wrth ei fodd i fod yn rhan o fenter Add Gorff a Chwaraeon Ysgol, a dywedodd: "Mae perthynas agos rhyngon ni a'r ysgolion sy'n ein bwydo i gyd ac mae bod yn ganolfan datblygu Add Gorff a Chwaraeon Ysgol yn golygu ein bod yn gallu rhoi mwy o gefnogaeth i'r clwstwr o ysgolion, o Gyfnod Allweddol 1 ymlaen."

Mae'r cynllun ar waith yn barod ac mae staff Add Gorff o Ysgol Sir y Porth, dan arweiniad Mrs Angela Williams, Pennaeth Add Gorff y merched a Rheolwr y Ganolfan Datblygu yn cynorthwyo ysgolion y clwstwr i ddysgu Addysg Gorfforol.

Meddai Mrs Williams: "Fe gwrddon ni â'r staff o'r ysgolion clwstwr i gyd a phwyso a mesur ein cryfderau a'n gwendidau parthed dysgu Add Gorff. Fe ganfyddon ni fod eisiau mynd i'r afael â dysgu sgiliau pêl sylfaenol yng Nghyfnod Allweddol 1 a gymnasteg a dawns yng Nghyfnod Allweddol 2.

Cafodd disgyblion o'r ysgol leol sy'n ein bwydo ni gyfle yn ystod seremoni'r cyhoeddi i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau. Yn ôl Kurtis Dalton, sy'n 10 oed, o Ysgol Gynradd Pont-y-gwaith: "Dw i'n dwlu ar bêl-droed, ond mae heddiw wedi bod yn wych – dysgais rai medrau pêl-fasged newydd – mae'n dda i gymryd rhan mewn nifer o chwaraeon gwahanol. Dw i'n edrych ymlaen at weld yr athrawon yn dod i'r ysgol."

Meddai Shannon Rowley, sy hefyd yn 10 ac o Ysgol Gynradd Pont-y-gwaith: "Mae hi wedi bod yn ffantastig. Dysgais i ddawns newydd a dw i'n mynd yn ôl i'r ysgol i ddangos iddyn nhw sut mae ei gwneud hi."

Roedd cynrychiolwyr o'r AALl, y gwasanaeth ymgynghorol a'r byd chwaraeon yn cefnogi Ysgol Sir y Porth a'i chlwstwr yn ystod seremoni'r cyhoeddi.

Meddai Gareth Rees, Swyddog Gwella Ysgolion Uwchradd ar gyfer Rhondda Cynon Taf: "Mae hwn yn gyfle newydd i gynnwys pobl ifainc a'u hathrawon mewn gweithgareddau pwrpasol a phleserus a fydd yn hyrwyddo cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol gydol eu hoes."

Barn Selwyn Jones, Prifathro Ymgynghorol ar gyfer Ysgolion Cynradd yw: "Bydd menter Add Gorff a Chwaraeon Ysgol yn rhoi'r cyngor, y gefnogaeth, a'r medrau angenrheidiol i'r athrawon i ddatblygu cynllun Add Gorff a Chwaraeon Ysgol. Mae hefyd yn cynyddu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd ffordd o fyw iach a bywiog ymhlith y disgyblion.

Yn seremoni'r cyhoeddi hefyd oedd Scott Young - cyn chwaraewr i Dîm Pêl-droed Dinas Caerdydd - a Gary Wilmot Swyddog Datblygu Pêl-droed y clwb. O blith brawdoliaeth byd rygbi oedd yr hyfforddwyr Neil Boobyer a Chris Jones ac o'r Byd pêl-fasged roedd Missy Lender a Geraldine Roberts, chwaraewyr i Rhondda Rebels a'u rheolwr Andrew Tynan.

Ar ôl gwylio'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon gwahanol, dywedodd Scott Young: "Mae'n dda gweld disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd yn cael cyfleoedd cyfartal a hefyd chwaraeon ar gyfer unrhyw allu, nid rhywbeth i'r goreuon yn unig."

Ychwanegodd yr hyfforddwr rygbi,Chris Jones: "Dw i o blaid unrhyw beth sy'n hyrwyddo byw yn iach, felly dw i'n cefnogi Ysgol Sir y Porth a'r fenter yma."

Uchod: Cefnogwyr seremoni cyhoeddi PESS

Cwmni Dawns ar Daith yn Rhondda Cynon Taf

Bydd cwmni *Welsh Independent Dance* (WiD) yn cynnal rhaglen gynhwysfawr o weithdai i ysgolion yn Rhondda Cynon Taf ar Fehefin 6ed a 7fed.

Dyma daith gyffrous sy'n cynnwys y gorau o fyd dawns fodern. Yn ogystal â'r perfformiad mae pecyn gweithdai ysgolion cynhwysfawr ar gael ar gyfer disgyblion dros 12 sy'n rhoi'r profiad iddyn nhw o weithio gyda dawnswyr proffesiynol profiadol a dysgu am egwyddorion coreograffi, cynnwys, tasgau creadigol, iechyd a pharatoi ynghyd â chynnig cefnogaeth ardderchog i athrawon dawnsio arbenigol a rhai nad ydyn nhw wedi arbenigo yr un pryd. Mae 3 gweithdy ar gael dan arweiniad dau diwtor profiadol a bydd yn para am ddwy awr gan ddarparu ar gyfer hyd at 25 ym mhob un o'r tri gweithdy. Mae Isadran Gwasanaethau Diwylliannol Rhondda Cynon Taf yn gallu cynnig y gweithdai yma ar raddfa sydd wedi'i noddi ar gyfer ysgolion. Bydd angen cyfraniad o £80 y gweithdy oddi wrth ysgolion sy'n cymryd rhan. Bydd tocynnau ar gael am bris gostyngol ar gyfer y perfformiad gyda'r nos ar 7fed Mehefin.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â Mark Etherington (Swyddog Datblygu'r Celfydyddyau – Addysg a Materion Cymdeithas Gynhwysol). Ffôn: 01443 744097.

Tu mewn:

Ras Hwyl Cwm Rhondda	2
Pethau'n Twymo yn Nhonyrefail	3
Clybiau dawns yn mynd o nerth i nerth	3
Amserau egwyl mwy egnïol	3
Disgyblion hŷn yn arwain y ffordd!	4
Cynllun AGChY yn gymorth yn ystod archwiliad	4
Manylion cyswllt	4

Dalier sylw:

- *Ysgolion uwchradd—peidiwch ag anghofio cyflwyno'ch cais ar gyfer cymhorthdal Genethod yn Gyntaf – mae'n bosib ichi hawlio £1,000 ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd chwaraeon.*
- *Mae hawl gyda ysgolion cynradd ac uwchradd i gyflwyno cais am gymhorthdal Cist y Gymuned (uchafswm o £750) i ddatblygu cyfleoedd chwaraeon.*

Disgyblion hŷn yn cefnogi Rhaglen Chwaraeon Cynradd

Yn ystod tymor yr hydref rhoddodd Rachel Murray (Cydlynydd Campau'r Ddraig) a'i thîm brawf ar allu myfyrwyr blynyddoedd 12 a 13 yn Ysgol Sir y Porth. Cofrestrodd 35 o fyfyrwyr ar y diwrnod hyfforddi gan gymryd rhan mewn tasgau ymestynnol er mwyn datblygu'r medrau angenrheidiol i gynorthwyo gyda chynnal cyflwyno rhaglen o chwaraeon.

Yn ystod tymor y gwanwyn bydd y myfyrwyr yn cael eu rhoi mewn ysgolion cynradd lleol a chlybiau chwaraeon cymuned lle byddan nhw'n trosglwyddo eu profiadau i bobl ifainc a chynorthwyo i gynnal y sesiynau.

Meddai Angela Williams, Rheolwr Canolfan Datblygu'r Porth: "Mae wedi bod yn fodd i'r disgyblion i sylweddoli eu medrau a datblygu eu hyder. Mae'n fodd iddyn nhw rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned a chael profiad da a gwerthfawr."

Ymhlith y myfyrwyr sydd wedi'u rhoi i gynorthwyo yn y gymuned mae Kandi Morrisey (clwb nofio Ysgol Sir y Porth), Scott Edwards (Pêl-fasged yn ysgol Iau'r Cymer), a Sarah Huxton (dawns a phêl-rwyd yn Ysgol Gynradd Alaw). Barn Kandi oedd: "Roedd diwrnod Campau'r Ddraig yn llawer o hwyl ac fe roddodd lawer o hyder i fi." Yn ôl Scott "Mae wedi fy nghynorthwyo i ddeall agweddau gwahanol ar ddysgu chwaraeon. Rydw i wedi mwynhau mynd yn ôl i fy hen ysgol a gallu helpu disgyblion sy'n iau na fi."

I gael rhagor o fanylion ar gyrsiau hyfforddi Campau'r Ddraig i ddisgyblion hŷn, ffoniwch Rachel Murray ar (01685)885639.

Disgyblion hŷn yn Ysgol Sir y Porth yn mynd trwy'u pethau yn rhan o'u hyfforddiant dan gynllun Campau'r Ddraig

Ymunwch yn ras hwyl Cwm Rhondda!

Bydd ras hwyl Cwm Rhondda i blant iau - wedi ei threfnu gan Gyfeillion Ysgol Sir y Porth - yn cael ei chynnal y dydd Sul cyntaf o Orffennaf yng Nghanolfan Chwaraeon Cwm Rhondda. Mae'n agored i blant rhwng 4 a 16 oed.

Yn ogystal â bod ynanogaeth i bobl ifainc i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol gydol eu hoes, mae'r achlysur yn gyfle hefyd i ysgolion a chlybiau i godi arian sylweddol gan bod unrhyw arian mae'r plant yn ei godi yn mynd tuag at eu sefydliad.

"Mae llawer o'r arian yn cael ei godi ar gyfer clybiau, ysgolion ac elusennau trwy nawdd. Felly os ydych chi'n chwilio am ffordd rwydd o godi arian i'ch clwb, ysgol neu gylch mae'r achlysur hwn ar eich cyfer chi," ychwanegodd siaradwr ar ran Cyfeillion Ysgol Sir y Porth. Os oes diddordeb gyda'ch ysgol mewn bod yn rhan o'r hwyl cysylltwch ag Angela Picton. Ffoniwch 682137 am ragor o fanylion.

"Os ydych chi'n chwilio am ffordd rwydd o godi arian i'ch clwb, ysgol neu gylch dyma'r achlysur ar eich cyfer chi."

Bydd yn ddiwrnod o sbri i'r teulu cyfan gyda medalau, sioeau ac adloniant i'r bobl sy'n cymryd rhan.

Gŵyl pêl-rwyd!

Mae tîm pêl-rwyd y plant iau yng nghlwstwr y Porth yn dechrau'n deg gyda chymorth Laura Williams (Swyddog Datblygu Pêl-rwyd Rhondda Cynon Taf) a Nicola Isaccs (Hyfforddwraig Pêl-rwyd Ysgol Sir y Porth).
Y llynedd cymerodd dros 100 o ferched ysgolion cynradd ran yn niwrnod hwyl pêl-rwyd yng Nghanolfan Chwaraeon Cwm Rhondda Fach.

Yn ogystal â datblygu medrau chwarae'r disgyblion, roedd yn gyfle hefyd i'r disgyblion hŷn o Ysgol y Porth i ddatblygu eu medrau hyfforddi a dyfarnu. Yn ôl Laura Williams: "Roedd yn dda bod y myfyrwyr uwchradd yn gallu gwneud defnydd o'u cymhwyster newydd mewn pêl-rwyd."

"Roedd y diwrnod o hwyl yn llwyddiannus dros ben a bydd yn rhoi'r momentwm sydd ei angen i roi cic i ddechrau cynghrair pêl-rwyd yn ystod tymor y gwanwyn yn Ysgol Sir y Porth" ychwanegodd Nicola Isaccs.

Bydd y newyddion diweddaraf am y cynghrair pêl-rwyd yn y rhifyn nesaf.

Pethau'n poethi yn Nhonyrefail

Cymerodd 5 ysgol gynradd ran yn nhwrnamaint ysgolion Tonyrefail y tymor diwethaf. Roedd disgyblion blwyddyn 5 a 6 o Hendreforgan, Cwm-elái, Abercerdin, Dinas Isaf a Thref-y-rhyg yn cystadlu ar bêl-rwyd a phêl-droed. Mae'r twrnameintiau yn rhan o'r rhaglen Add Gorff a Chwaraeon Ysgol sy'n cael ei hariannu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd yn dod â'r ysgolion at ei gilydd yn rheolaidd i gystadlu mewn amrywiaeth o chwaraeon.

Yn ôl Cheryl McNamee-Brittain, Cydlynydd Add Gorff a Chwaraeon Ysgol yn Rhondda Cynon Taf: "Mae'r twrnameintiau yma yn rhan o raglen ehangach sy'n anelu at ehangu cyfleoedd chwaraeon i ddisgyblion a chodi safonau Addysg Gorfforol ledled y fwrdeistref."

Roedd rownd derfynol y gystadleuaeth pêl-rwyd rhwng Cwm-elái a Hendreforgan ac wedi gêm gyffrous, Cwm-elái oedd yn fuddugol o drwch blewyn o 4-3. Yn rownd derfynol y gystadleuaeth bêl-droed daeth y ddwy ysgol wyneb yn wyneb eto a'r tywydd yn wael iawn. Y tro yma Hendreforgan oedd yn fuddugol.

Enillwyr - tîm pêl-droed Hendreforgan

Perchennog fferm wynt leol - Power Renewables yn Nhaf -Elái - oedd yn noddi'r achlysur hwn. Nhw roddodd y gwobrwyon i'r timau buddugol, pensilau i'r bobl oedd yn cymryd rhan i gyd a chostau cludiant i'r ysgolion oedd yn cystadlu. Cafodd pob un oedd yn cymryd rhan sticeri a thystysgrifau i fynd adre gyda nhw.

Yn yr ail dwrnamaint, a gafodd ei gynnal yn ystod tymor yr hydref, roedd disgyblion hŷn a staff o'r ysgol uwchradd leol ar gael i ddyfarnu a hyfforddi'r timau cynradd. Meddai Mrs Tranter, athrawes Add Gorff yn ysgol Tonyrefail: " Mae'r twrnameintiau yma yn rhoi cyfle i'n disgyblion i ddatblygu eu medrau hyfforddi a dyfarnu."
Llwyddodd tîm pêl-rwyd Hendreforgan, a gollodd o drwch blewyn yn y twrnamaint blaenorol, i gipio'r wobr, gan faeddu Ysgol Gynradd Dinas Isaf yn y rownd derfynol o 4-1.

Enillwyr y twrnamaint cyntaf: tîm pêl-rwyd Cwm-elái

Enillwyr yr ail dwrnamaint : tîm pêl-rwyd Hendreforgan

Clybiau Dawns yn mynd o nerth i nerth

Gan ddilyn ar lwyddiant rhaglen gwrícwlaidd Add Gorff a Chwaraeon Ysgol, daeth y galw am ragor o gyfleoedd dawns i'r amlwg. Cafodd llawer o glybiau dawns ôl-oriau ysgol eu cynnal yng nghlwstwr Tonyrefail yn ystod tymor y gwanwyn. Yr oedd nawdd Cronfa Cyfleoedd Newydd (y Lotri Fawr erbyn hyn) yn fodd i ariannu hyfforddwr dawns i gyflwyno sesiwn wythnosol o awr trwy gydol y flwyddyn academaidd i bob disgybl oedd â diddordeb

"Dw i'n hoffi dod i'r clwb dawns oherwydd dw i'n hoffi dawnsio. Mae'r bobl yn hyfryd a dw i wedi dysgu llawer o symudiadau dawnsio", meddai Sophie Parr, disgybl Blwyddyn 10 o Gwm-elái.

"Mae ein sesiynau dawnsio wedi bod yn llwyddiannus dros ben," meddai Sue Williams, Prifathrawes Ysgol Gynradd Cwm-elái. "Mae'r safonau sydd wedi eu cyflawni wedi bod yn arbennig ac mae'r plant wedi bod yn frwdfrydig ers y sesiwn cyntaf un o ganlyniad i arbenigedd a phersonoliaeth egnïol Rachel, yr athrawes ddawns."

Disgyblion mewn clwb dawns ôl-oriau ysgol

Mae tua 100 o ddisgyblion yn mynychu'r sesiynau a bydd pob dawnsiwr yn cael cyfle i ddathlu'i waith a rhannu'r profiad gyda chyddisgyblion, rhieni ac athrawon yn Theatr y Parc a'r Dâr, Treorci ar 8fed Mawrth.

I annog rhagor o ddatblygu proffesyddol ymhlith athrawon sy'n dysgu dawns mewn ysgolion cynradd, llwyddon ni yn ein cais am gymorthdal Cyngor y Celfyddydau i gynnal gweithdai dawns gyda'r hwyr, lle bydd y staff yn cael adnoddau ychwanegol a syniadau newydd ar gyfer addysgu dawns.

Amserau egwyl mwy egnïol!

Ydy'ch plant chi'n diflasu yn ystod amser chwarae ac amser cinio? Ydy'r goruchwylwyr canol dydd yn sôn am nifer o drafferthion ymddygiad yn ystod yr awr ginio? Ydy'r disgyblion hŷn yn tueddu i'w lordio hi yn y buarth, fel arfer yn chwarae pêl-droed ac yn gwthio'r mwyafrif o'r disgyblion i'r ymylon? Ydy'r disgyblion yn camymddwyn yn y gwt wrth aros am ginio? Os ydy yw'r ateb i rai o'r cwestiynau yma, efallai byddai hyfforddiant "Yn y parth" o fudd i chi a'ch ysgol.

Amcan Cynllun hyfforddi "Yn y parth" (a gafodd ei drefnu gan gynllun Add Gorff a Chwaraeon Ysgol) ac a gafodd gyfnod prawf yng Nghaerdydd yn ddiweddar, yw rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i athrawon, goruchwylwyr canol dydd, gwirfoddolwyr a chynorthwyr dosbarth i gadw gwell trefn ar amserau chwarae.
Mae rhai ysgolion yn defnyddio'r ffordd yma o fynd ati yn arf yn erbyn bwlio, i wella ymddygiad yn y lle chwarae a hefyd i gynyddu gweithgareddau corfforol ymysg pobl ifainc. Mae rhai ysgolion wedi trefnu hyfforddiant tebyg i ddisgyblion blwyddyn 6 i fod yn arweinwyr y lle chwarae, gan roi cyfrifoldebau i'r disgyblion a hyrwyddo datblygu rhinweddau megis cyfrifoldeb,gonestrwydd, gwaith tîm a chwarae teg.

Mae awdur "Yn y parth" Emma Newton, yn pwysleisio nad rhoi gorchymyn ar sut i reoli'r lle chwarae yw diben yr hyfforddiant ond mae'n rhoi ystod o enghreifftiau ynghylch cael cymorth a rhagor o adnoddau."

Mewn ymdrech i annog disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol am awr 5 gwaith yr wythnos, mae Rhondda Cynon Taf yn gobeithio cynnig y math yma o hyfforddiant yn y dyfodol agos i ysgolion sydd â diddordeb. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn y rhifyn nesaf. Os oes gyda chi diddordeb cofrestru cysylltwch â chydlynydd Add Gorff a Chwaraeon Ysgol (mae'r manylion ar dud.4.)

Mae manylion ychwanegol i'w cael oddi wrth Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid a Sefydliad y Galon Prydain.



CHERYL MCNAMEE-BRITTAIN
Cydlynydd Cynllun Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol

Tŷ Trevithick
Abercynon
CF45 4UQ

Ffôn: 01443 744035
Ffacs: 01443 744024
Ebost: Cheryl.McNamee-Brittain@rhondda-cynon-taf.gov.uk

Rhondda Cynon Taf fydd yn cynnal Cwrs Addysgu Athrawon Lefel 1 sefydliad UK Athletics yn ystod Tymor yr Haf. Mae'r cwrs yma - 'Cymhwyster Athrawon Cynradd' oed ei deitl gynt - yn addas i athrawon Cyfnodau 1 a 2 a'r gost yw £30. Ffoniwch 01443 744035 I gadw lle arno—gan nodi'ch enw ac enw'ch ysgol wrth wneud.

Disgyblion hŷn yn arwain y ffordd!

Gan ddilyn ar gynllun Campau'r Ddraig llwyddiannus yn Ysgol Gyfun Tonyrefail y llynedd, pan gafodd 30 o ddisgyblion Blwyddyn 11 hyfforddiant i fod yn 'Arweinydd Campau'r Ddraig', mae 13 o'r disgyblion sy'n dilyn cwrs U/G Addysg Gorfforol hefyd yn dilyn cwrs CGC Lefel 2 Arwain Gweithgareddau.

Mae'r cwrs yn cynnwys nifer o seminarau ynglŷn â threfnu sesiynau hyfforddi a'u cynnal ynghyd â phrofiad ymarferol. Yn rhan o'r cwrs roedd disgyblion yn gweithio ar y cyd â swyddogion datblygu rygbi - Chris Jones, Clive Jones a Neil Boobyer - i gynnal cyrsiau hyfforddi yn 6 ysgol gynradd ardal Tonyrefail.

Arsylwi'r swyddogion datblygu yn cynnal sesiynau oedd y disgyblion yn y lle cyntaf, ond wrth iddyn nhw feithrin hyder yn y maes roedden nhw'n cynnal rhan o'r sesiwn eu hunain ac erbyn y diwedd yn cynnal y sesiwn i gyd eu hunain.

Mae hyn wedi bod yn brofiad gwych i ddisgyblion y chweched dosbarth.
Yn ôl Craig Davey (Disgybl Blwyddyn 12 sy'n cynnal cyrsiau hyfforddi yn Ysgol Gynradd Dinas Isaf): " Roeddwn i'n nerfus iawn ar y dechrau a doeddwn i ddim yn sicr iawn beth i'w wneud. Roedd Clive (Jones) yn gaffaeliad mawr ac yn gymorth imi feithrin fy hyder. Rydw i'n hyderus nawr ynglŷn â chynnal sesiynau ac mae'n braf gweld y plant yn meithrin eu medrau."

Yn sgîl y bartneriaeth lwyddiannus eleni, bydd y garfan o ddisgyblion sydd ym Mlwyddyn 12 yn dilyn cwrs Hyfforddi, Addysgu ac Arwain y flwyddyn nesaf. Yn yr un modd bydd disgyblion Blwyddyn 11 sy'n dilyn cwrs TGAU yn cael y cyfle i ddilyn cwrs Arwain Gweithgareddau o fis Medi ymlaen.

Cynllun Add Gorff a Chwaraeon Ysgol yn gymorth yn ystod yr archwiliad

Mae cael arolwg yn rhoi pwysau mawr ar staff bob ysgol. I 2 ysgol â chyswllt â Chanolfan Datblygu Chwaraeon Cynllun Add Gorff a Chwaraeon Ysgol yn Rhondda Cynon Taf roedd yr arolwg yn gyfle iddyn nhw gael cydnabyddiaeth a chlod cyhoeddus yr arolygwyr ynglŷn â manteision bod yn rhan o gynllun Add Gorff a Chwaraeon Ysgol.

Yn ôl Sonia Sokolowski, Pennaeth Ysgol Gynradd Tonyrefail: " Roedd sylwadau diweddar arolygwyr ESTYN yn dystiolaeth i'r ffaith fod cymryd rhan yng nghynllun Add Gorff a Chwaraeon Ysgol wedi cynyddu ymwybyddiaeth ynglŷn ag Addysg Gorfforol ac roedd safonau yn y pwnc wedi gwella'n sylweddol ers yr arolwg diwethaf."

"Mae'n fraint bod yn rhan o bartneriaeth cynllun Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol sydd wedi gwneud cyfraniad mor werthfawr i fywyd yr ysgol a'i gwaith. Mae cymuned yr ysgol i gyd wedi elwa o fentrau a gweithgareddau cynllun Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol," ychwanegodd.

Cafodd Ysgol Gynradd Pont-y-gwaith arolwg yn ddiweddar hefyd. Meddai Cydlynydd Addysg Gorfforol yr ysgol, Joanne Rees: " Mae bod yn rhan o gynllun Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol gydag Ysgol Sir Cymuned y Cymuned y Porth wedi cael effaith llesol iawn ar brosesau addysgu a dysgu yn Ysgol Gynradd Pont-y-gwaith - ym meysydd gymnasteg a dawns yn arbennig ."

Bu Val Hopkins, athrawes CA1 yn Ysgol Gynradd Pont-y-gwaith yn arsylwi gwers ddawns a gafodd ei chynnal gan Ceri Grech, arbenigwr Addysg Gorfforol yn Ysgol Sir Cymuned y Porth. Roedd atgyfnerthu hunan hyder, codi syniadau newydd a chael cyngor ymarferol yn rhai o fanteision bod yn rhan o gynllun datblygu dawns broffesiynol. "Roedd modd imi roi'r pethau yma ar waith yn ystod ein harolwg yn ddiweddar. Fe gafodd hyn effaith da iawn ar y gwersi," ychwanegodd.

Disgyblion yn cymryd rhan mewn gwers Addysg Gorfforol

Cydnabyddodd Joanne Rees y rhan a chwareodd cynllun Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol yn eu canlyniadau calonogol yn yr arolwg yn ddiweddar. Cafodd ansawdd da prosesau addysg a dysgu mewn Addysg Gorfforol eu canmol.

" Mae'r staff yn fwy hyderus o ran dysgu gwersi mwy uchelgeisiol ac mae'r disgyblion wedi datblygu medrau mwy cymhleth hefyd," meddai. Cafodd hyn ei danlinellu yn sylwadau'r arolygwyr, a ganmolodd hyder a medrau'r staff a'r disgyblion wrth addysgu'r gwersi a chymryd rhan yn y gweithgareddau.

"Mae penodi Cydlynydd AGChY yn yr awdurdod wedi ategu gwaith y gwasanaeth ymgynghorol yn llwyddiannus. Trwy hyrwyddo gwaith clwstwr mwy cadarn, mae cynllun AGChY wedi cyfrannu at rannu arfer dda a gwybodaeth arbenigol rhwng yr ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd cysylltiedig. Mae hyn wedi cynorthwyo i godi safonau a chafodd hyn ei amlygu yn yr adroddiadau arolwg yn ddiwe-ddar",ychwanegodd John Williams, Swyddog Datblygu Ysgolion Cynradd yr awdurdod.